# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(3) 11-08(p.2): 9 Gorffennaf 2008

## Tlodi plant: Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru – Gweithredu ar Dlodi Plant

#### Trafodaeth

1Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 11 Mehefin y bydd yn cynnal ymgynghoriad ar dlodi plant, sef Gweithredu ar Dlodi" "Plant. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyflwyno cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu ar dlodi plant. Mae hyn yn cynnwys gwneud deddfwriaeth newydd i roi dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus mewn perthynas â thlodi plant, i ddarparu lleoedd gofal plant am ddim a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill mewn mannau penodol, i gyfateb i ganllawiau darparu grant Cymorth ac i gyflwyno strategaeth i gefnogi plant sy'n agored i niwed. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys cytundeb ar y cyd drafft gwirfoddol ar dlodi plant sy'n nodi ymrwymiad asiantaethau cyhoeddus i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'i hamcanion o ran tlodi plant.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 30 Medi.

**Argymhelliad**

Bod y pwyllgor yn nodi'r ddogfen ymgynghori ac yn cyflwyno ei ymateb iddi fel pwyllgor. Gan mai hwn fydd cyfarfod olaf y pwyllgor cyn y toriad, awgrymir bod aelodau'n anfon unrhyw sylwadau ychwanegol yn dilyn y ddadl i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn 31 Gorffennaf. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi ymateb a'i anfon at yr aelodau i'w gytuno cyn ei gyflwyno. Wrth gwrs, gall aelodau hefyd gyflwyno eu hymatebion unigol i'r ymgynghoriad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Gorffennaf 2008**